Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

18 Hydref 2023

Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion: Diweddariad

Annwyl Rebecca

Ysgrifennais atoch ar 9 Mai 2023 yn ceisio sylwadau ar y Datganiad o Egwyddorion (yr Egwyddorion). Rwy'n ddiolchgar am eich ymateb a ystyriwyd ochr yn ochr â sylwadau gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar 6 Gorffennaf a 5 Hydref. Ysgrifennais eto at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol mewn perthynas â'r sylwadau hynny ar 18 Hydref 2023.

Roedd yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol i raddau helaeth ac felly mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Egwyddorion eu hunain aros heb eu newid. Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw at awgrymiadau a wnaed gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar sut y gellid gwella'r trefniadau presennol.

Yn gyntaf, mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol fod defnyddioldeb y wybodaeth a ddarperir gennych yn flynyddol i lywio eu gwaith cynllunio cyllidebol yn gyfyngedig. Rydym yn nodi hefyd bod ansicrwydd ehangach ynghylch maint Cronfa Gyfunol Cymru yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol fodloni'r gofyniad yn yr Egwyddorion y dylid gosod ceisiadau cyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru.

Er fy mod yn sylweddoli bod darparu manylion ystyrlon yn gynnar yn y flwyddyn ariannol yn anodd i Lywodraeth Cymru, yn enwedig gan fod eich sefyllfa gyllidebol eich hun ymhell o fod yn glir ar y pwynt hwnnw, gofynnwn ichi ystyried a ellir rhannu unrhyw wybodaeth ychwanegol yn

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

gynt. Gallai hyn gynnwys darparu ystod o newidiadau canrannol o amgylch y pwynt canol, fel yr awgrymwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a chrynodeb o risgiau a disgwyliadau o ran senarios ariannu yn dilyn unrhyw ddigwyddiad cyllidol dilynol yn yr hydref.

Yn ail, er bod diffyg cefnogaeth gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar gyfer newidiadau ar raddfa fawr i Reolau Sefydlog mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau ategol, mae profiadau diweddar ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei lythyr ymgynghori ym mis Mai wedi cwestiynu addasrwydd a chynaliadwyedd y gweithdrefnau hyn ac a ydynt yn adlewyrchu'n gywir statws cyfansoddiadol y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol. Felly, rydym wedi gofyn am ragor o sylwadau gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar y mater hwn.

Yn sgil y sylwadau a fynegwyd gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn eu hymatebion, rydym hefyd yn cydnabod yr anawsterau ymarferol a achosir pan nad yw union amseriadau cyllidebau atodol Llywodraeth Cymru yn hysbys. O ganlyniad i hyn, rydym yn galw arnoch i ddarparu manylion am amserlen cyllidebau atodol i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn y dyfodol, cyn gynted ag y cytunir ar y dyddiadau perthnasol, i lywio eu gwaith cynllunio cyllidebol yn ystod y flwyddyn.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ystyriaeth o'r materion a nodwyd uchod a byddem yn croesawu gohebiaeth a deialog ychwanegol ar y materion hyn.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.